



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Llawlyfr Ymgeisydd Llwybr Cymrodoriaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Chwefror 2022

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pam ystyried Cymrodoriaeth?	4
Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF)	4
Categoriâu'r Gymrodoriaeth	6
Cydnabyddiaeth AU Ymlaen a PCDDS	7
Llwybr DPP (Cymrawd Cyswllt, Cymrawd ac Uwch Gymrawd):	8
Pa gategori o Gymrodoriaeth sy'n iawn i chi?	8
Y Broses Cyn-Ymgeisio	9
Eich Canolwyr	10
Cymrodoriaeth Gyswllt	11
Gofynion Ymgeisio	11
Cyfarwyddyd Cymorth	11
Cymrodoriaeth	12
Gofynion Ymgeisio	12
Cyfarwyddyd Cymorth	12
Uwch Gymrodoriaeth	13
Gofynion Ymgeisio	13
Cyfarwyddyd Cymorth	13
Prif Gymrodoriaeth	14
Gofynion Ymgeisio	14
Cyfarwyddyd Cymorth	14
Proses Ymgeisio	15
Asesu'r Ceisiadau	16
Cyfngiadau geiriau ar gyfer ailgyflwyno (cyfeirio)	18
Gweithdrefn Apelio	18
Sail i Apelio	18
Cyflwyno Apêl	18
Ymchwiliad	19
Gweithdrefn Gwynion	19

Cyflwyniad

Nod Cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS) yw cynorthwyo'r holl staff sy'n ymwneud ag addysgu a chynorthwyo myfyrwyr sydd â mwy na dwy flynedd o brofiad mewn AU i gryfhau eu sefyllfa broffesiynol trwy gael cydnabyddiaeth gan AU Ymlaen ar gyfer cysoni eu hymarfer proffesiynol gyda Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF) trwy gael Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch.

Mae'r Cynllun DPP wedi ei osod yn strategol yn Fframwaith Dysgu ac Addysgu NEXUS PCDDS, sy'n cael ei reoli gan y Swyddfa Academaidd, sy'n cael ei goruchwyllo gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Academaidd). Bwrdd Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol sydd â goruchwyliaeth Sefydliadol dros bob Cymrodoriaeth a roddir gan y Brifysgol.

Trwy gysoni eu hymarfer proffesiynol â'r UKPSF, mae unigolion yn gallu dangos eu hymdrechion a'u hymrwymiad i ddarparu addysgu, dysgu ac asesu o safon uchel a'u cyfraniad at brofiadau dysgu effeithiol a gwerthfawr. Bydd cydnabyddiaeth broffesiynol hefyd yn caniatáu i staff arddangos creadigrwydd a blaengaredd ac arddangos, trwy weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, broffesiynoldeb a rhagoriaeth yn eu hymarfer academaidd ac ysgolheigaidd.

Pam ystyried Cymrodoriaeth?

Mae Cymrodoriaethau wedi ymwreiddio yn y Deyrnas Unedig ac maent wedi cael eu mabwysiadu gan nifer gynyddol o sefydliadau addysg uwch yn fyd-eang, o'r Americas i Awstralia, gan gynnwys PCDDS.

Mae Cymrodoriaeth yn cynnig amrywiaeth o fanteision i chi:

- Yn cadarnhau datblygiad personol a thystiolaeth o ymarfer proffesiynol yn eich gyrfa addysg uwch;
- Yn cynnig dull gwerthfawr o fesur llwyddiant ac yn cael ei gydnabod yn gynyddol gan sefydliadau rhyngwladol;
- Yn dangos ymrwymiad i addysgu, dysgu a phrofiad y myfyriwr, trwy ymwneud â phroses ymarferol sy'n annog ymchwil, myfyrio a datblygiad;
- I unigolion, i ddynodi eu harbenigedd gyda'r hawl i ddefnyddio llythrennau ar ôl eu henwau (AFHEA, FHEA, SFHEA, PFHEA).

Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF)

Mae Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig yn set gynhwysfawr o safonau proffesiynol a chanllawiau i bawb sy'n ymwneud ag addysgu a chynorthwyo dysgu mewn AU, gellir ei weithredu ar gyfer rhaglenni datblygu personol ar lefel unigol neu sefydliadol i wella ansawdd yr addysgu.

Mae'r fframwaith yn dynodi'r ystod amrywiol o swyddi addysgu a chynorthwyo a'r amgylcheddau. Adlewyrchir a mynegir y rhain yn y Dimensiynau Ymarfer Proffesiynol. Mae UKPSF yn amlinellu'r Dimensiynau Ymarfer Proffesiynol mewn addysgu a chynorthwyo dysgu AU yn glir.

Mae [UKPSF](#) wedi eu llunio o bedwar disgrifydd (UKPSF 2011, tudalennau 4-7), sy'n nodi meini prawf penodol, a thri Dimensiwn:


-Meysydd Gweithgaredd sy'n disgrifio beth mae gweithiwr addysgu a dysgu proffesiynol yn ei wneud;

-Gwybodaeth Greiddiol sy'n amlinellu beth sydd arnynt angen ei wybod;

-Gwerthoedd Proffesiynol sy'n amlinellu'r modd y dylent gyflawni eu gweithgaredd.

Mae'r UKPSF ar gael yma: [Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig \(UKPSF\)](#)

Dimensiynau Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF)



Categoriâu'r Gymrodoriaeth

Rydym yn dyfarnu tri chategori gwahanol o Gymrodoriaeth trwy'r llwybr DPP: [Cymrodoriaeth Gysylltiol \(AFHEA\)](#), [Cymrodoriaeth \(FHEA\)](#), ac [Uwch Gymrodoriaeth \(SFHEA\)](#). Mae'r Brifysgol yn cefnogi ceisiadau ar gyfer [Prif Gymrodoriaeth \(PFHEA\)](#) yn uniongyrchol i AU Ymlaen.

Mae'r pedwar categori yma'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o ymarfer proffesiynol a gyflawnir gan unigolion sy'n dysgu a/neu gynorthwyo dysgu mewn addysg uwch; o'r rhai sydd â rhan rannol yn addysgu/cynorthwyo dysgu i'r gweithwyr proffesiynol uwch sydd ag effaith strategol ar addysgu a dysgu mewn lleoliad sefydliadol, cenedlaethol a/neu ryngwladol.

Dyfernir pedwar categori'r Gymrodoriaeth ar sail tystiolaeth o ymarfer proffesiynol personol sy'n bodloni gofynion un o bedwar Disgrifydd [Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig \(UKPSF\)](#). Datblygwyd UKPSF fel fframwaith safonau ar gyfer y sector addysg uwch sy'n nodi'r wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau a ddangosir gan y rhai sy'n addysgu a/neu gynorthwyo dysgu addysg uwch.

Dyfernir cymrodoriaethau ar sail dangos un o bedwar Disgrifydd UKPSF yn llwyddiannus ac effeithiol. Wrth benderfynu am ba categori o Gymrodoriaeth i ymgeisio amdani ar y cam hwn yn eich gyrfa, bydd angen i chi bennu pa un o bedwar Disgrifydd yr UKPSF sydd fwyaf addas i'ch ymarfer a phrofiad proffesiynol chi:

Cymrawd Cyswllt (AFHEA)	Cymrawd (FHEA)	Uwch Gymrawd (SFHEA)	Prif Gymrawd (PFHEA)
Os ydych yn gallu rhoi tystiolaeth o effeithiolrwydd yng nghyswllt eich swydd broffesiynol, a fydd yn nodweddiadol yn cynnwys o leiaf ychydig o gyfrifoldebau addysgu a/neu gynorthwyo dysgu, trwy ymgeisio am Gymrodoriaeth Gyswllt byddwch yn dangos dealltwriaeth o agweddau penodol o ddulliau addysgu, cynorthwyo dysgu a dysgu myfyrwyr effeithiol.	Os ydych yn gallu rhoi tystiolaeth o effeithiolrwydd eang mewn swyddi addysgu a chynorthwyo dysgu mwy sylweddol ac yn gallu dangos dealltwriaeth eang o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu fel cyfraniad allweddol at ddysgu myfyrwyr o safon uchel.	Os ydych yn gallu dangos dealltwriaeth drwyadl o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu fel cyfraniad allweddol at ddysgu myfyrwyr o safon uchel. Efallai eich bod yn aelod profiadol o staff sy'n gallu dangos effaith a dylanwad ar gydweithwyr eraill trwy, er enghraifft, gyfrifoldeb am arwain, rheoli neu drefnu rhaglenni, pynciau a/neu feysydd disgyblaethol.	Os gallwch chi ddangos hanes parhaus o arweiniad strategol effeithiol mewn ymarfer a datblygiad academiaidd a'ch bod yn brofiadol iawn gyda chyfrifoldebau arwain strategol eang yng nghyswllt agweddau allweddol o addysgu a chynorthwyo dysgu.

Cydnabyddiaeth AU Ymlaen a PCDDS

Yn y Fframwaith Dysgu ac Addysgu NEXUS, mae PCDDS yn cynnig dau lwybr y gall unigolyn eu dilyn i gael cydnabyddiaeth fel Cymrawd yr Academi Addysg Uwch.

Llwybr Datblygiad Proffesiynol Parhaus:

- Llwybr DPP – Cymrawd Cyswllt, Cymrawd ac Uwch Gymrawd.

Llwybr Darparu Rhaglen Academaidd:

- Rhaglen Tyst. Ôl-raddedig tHE – Cymrawd Cyswllt (Modiwl 1) a statws Cymrawd (Dyfarniad Llawn)

Bwriadwyd y Llawlyfr Ymgeisydd hwn ar gyfer y rhai sy'n ymgeisio am Gydabyddiaeth Cymrodoriaeth trwy'r llwybr DPP. Am ragor o wybodaeth am gael cydnabyddiaeth trwy'r llwybr darpariaeth a ddysgir, cyfeiriwch at y ddogfen gyfatebol ar gyfer y rhaglen a ddysgir.

Gall staff o sefydliadau sy'n cydweithredu heb fod yn aelodau ymgeisio trwy lwybr DPP PCDDS ond fe'u hysbysir o'r ffi ychwanegol am ddarpariaeth wedi ei hachredu fel y mae'n cael ei osod gan AU Ymlaen ([Cymrodoriaeth | AU Ymlaen \(advance-he.ac.uk\)](http://advance-he.ac.uk)).

Llwybr DPP (Cymrawd Cyswllt, Cymrawd ac Uwch Gymrawd):

Pa gategori o Gymrodoriaeth sy'n iawn i chi?

Wrth ystyried eich cais am Gymrodoriaeth dylech yn gyntaf ddefnyddio'r Offeryn Categori Cymrodoriaeth AU Ymlaen.

Dyluniwyd yr Offeryn Categori Cymrodoriaeth i'ch cynorthwyo wrth ddewis y categori o Gymrodoriaeth sydd yn cyfateb orau â'ch ymarfer presennol.

Mae'r offeryn yn cynnwys set o ddatganiadau sy'n cyd-fynd â Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UK PSF) ac mae'n cynnwys gwahanol Ddisgrifwyr a Dimensiynau. Bydd yr offeryn hunan-asesu hwn yn holi am eich gweithgareddau proffesiynol yn addysgu a/neu gynorthwyo dysgu mewn addysg uwch. Gofynnir i chi am yr ystod o weithgareddau yr ydych yn ymgymryd â nhw yn eich ymarfer.

Wrth ddefnyddio'r offeryn i ystyried eich ymarfer presennol, dylai eich dewis o ddatganiadau helpu i ddangos pa gategori o Gymrodoriaeth sydd fwyaf addas i chi. Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir' a dylech ddewis yr un sy'n adlewyrchu eich ymarfer proffesiynol orau.

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r holl adrannau sydd fel arfer yn cymryd tua **10-20 munud**, dangosir eich canlyniadau i chi a bydd adroddiad PDF yn crynhoi eich atebion **yn cael ei anfon i'r cyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei roi**. Bydd hwn yn ddefnyddiol wrth i chi ddechrau llunio eich cais am Gymrodoriaeth neu i ystyried eich datblygiad proffesiynol a'ch dyheadau o ran gyrfa.

**Offeryn Categori
Cymrodoriaeth**

Ar ôl i chi gasglu'r disgrifiydd priodol, ewch ymlaen i'r adran nesaf i ddysgu am y gwahanol brosesau ar gyfer pobl lefel.

Y Broses Cyn-Ymgeisio

Cyn ymgeisio i'r Cynllun DPP am Gydabyddiaeth gan yr Academi Addysgu Uwch, **rhaid i chi ddilyn rhaglen hyfforddi'r Brifysgol ar yr UKPSF.**

Elfen gyntaf y pecyn hyfforddi hwn yw gweithdy briffio gorfodol a fydd yn eich cynorthwyo i ddeall gofynion y broses ymgeisio. Bydd y gweithdy hwn a'r offeryn Categori Cymrodoriaeth a'r cyfarwyddyd yn y llawlyfr hwn yn eich helpu i bennu pa gategori o gymrodoriaeth sydd fwyaf addas i chi ymgeisio amdano. Dylech fod yn ymwybodol mai dim ond am un categori o gymrodoriaeth y gallwch ymgeisio, ac y bydd eich cais yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â'r categori yr ydych wedi ymgeisio amdano.

Fel rhan o'r pecyn hyfforddiant, dyrennir mentor i chi fydd yn rhoi rhagor o gymorth i chi, gan gynnwys darllen drafft o'r cais ac adborth arno.

Bydd gan eich mentor eisoes statws cymrodoriaeth sydd naill ai'n cyfateb neu'n uwch na'r categori yr ydych yn bwriadu ymgeisio amdano – bydd wedi bod trwy'r broses ei hun ac felly yn gallu deall yr ymrwymiad yr ydych yn ei ddangos i addysgu, dysgu a chynorthwyo myfyrwyr effeithiol trwy ddod yn rhan o'r broses hon.

Bydd yr holl fentoriaid yn cael hyfforddiant cyn cael eu penodi'n fentoriaid, a hyfforddiant ychwanegol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf o ran yr UKPSF a'r disgrifyddion.

Gall unigolion ymgeisio yn y Gymraeg neu'r Saesneg, mae hyfforddiant ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

Am ragor o wybodaeth neu unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at: HEApplications@uwtsd.ac.uk

Eich Canolwyr

Rhaid i geisiadau am Gymrawd Cyswllt, Cymrawd ac Uwch Gymrawd gael eu cefnogi gan ddilysiad trwy ddatganiadau cefnogol gan Ganolwr/Ganolwyr.

- **Un** ar gyfer ceisiadau Cymrawd Cyswllt.
- **Dau** ar gyfer ceisiadau Cymrawd.
- **Dau** ar gyfer ceisiadau Uwch Gymrawd.

Dylai eich Canolwr fod yn rhywun all roi adolygiad cymheiriad ar sail gwybodaeth o'ch cymhwyster i fod yn Gymrawd Cyswllt, Cymrawd neu Uwch Gymrawd o'r Academi Addysg Uwch, gan ddefnyddio ei wybodaeth am eich gwaith a'r cyd-destun yr ydych yn addysgu a/neu gynorthwyo dysgu ynddo. **Disgwylir i ganolwyr ddilysu eich cais** trwy roi sylw yn uniongyrchol ar gynnwys eich cais a rhoi sylwadau ychwanegol, perthnasol, fel y dymunant.

Dylai canolwyr fod yn staff profiadol a dylent allu rhoi sylwadau gwybodus, ac o brofiad personol, ar eich swydd bresennol ac unrhyw weithgareddau perthnasol eraill yr ydych wedi ymgymryd â nhw yn ddiweddar.

Argymhellwn y dylai o leiaf un o'ch Canolwyr fod yn Gymrawd, Uwch Gymrawd neu Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch (HEA), neu unrhyw aelod o staff sydd â phrofiad priodol sy'n gweithio i Sefydliad Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig (SAU).

Rhaid i'r holl Ganolwyr fod yn gyfarwydd â UKPSF, felly gofalmch eu bod yn gofyn am gopi o'r Nodiadau Cyfarwyddyd i Ganolwyr a'r Templedi Canolwyr o'r Swyddfa Academaidd trwy anfon e-bost at HEAapplications@uwtsd.ac.uk neu trwy'r VLE.

Bydd angen i bob geirda gael ei gyflwyno trwy Turnitin. Bydd y Swyddfa Academaidd yn rhoi'r ddolen i'r ymgeisydd wneud hyn. Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod ei ganolwyr yn gwybod bod hyn yn digwydd.

Cymrodoriaeth Gyswllt

Dyfernir Cymrodoriaeth Gyswllt i weithwyr proffesiynol all ddangos eu bod yn bodloni meini prawf Disgrifydd 1 (D1) [Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig](#) (UKPSF) ar gyfer addysgu a dysgu mewn addysg uwch. Trwy ymgeisio i fod yn Gymrawd Cyswllt mae unigolion yn dangos dealltwriaeth o agweddau penodol o ddulliau addysgu, cynorthwyo dysgu effeithiol a dysgu myfyrwyr a dangos:

- ymwneud llwyddiannus ag o leiaf ddau o'r pum Maes Gweithgaredd;
- ymwneud llwyddiannus ag addysgu ac ymarfer priodol yn gysylltiedig â'r Meysydd Gweithgaredd hyn;
- Gwybodaeth Greiddiol a dealltwriaeth briodol o K1 (y deunydd pynciol) a K2 (Dulliau addas o addysgu, dysgu ac asesu yn y pwnc ac ar lefel y rhaglen academiaidd);
- ymrwymiad i Werthoedd Proffesiynol priodol wrth hwyluso dysgu eraill;
- ymarfer proffesiynol perthnasol, ymchwil pynciol ac ysgolheigaidd a/neu ysgolheictod yn y gweithgareddau uchod;
- ymgysylltu llwyddiannus, pan fydd yn addas, mewn gweithgaredd datblygu proffesiynol yn ymwneud â chyfrifoldebau addysgu, dysgu ac asesu.

Gofynion Ymgeisio

- Dylai'r Ffurflen Gais ar gyfer Cymrawd Cyswllt ymdrin â:
 - o leiaf **DDAU** Faes Gweithgaredd;
 - K1 a K2 o leiaf o'r Wybodaeth Greiddiol; ac
 - ymrwymiad i Werthoedd Proffesiynol **priodol**
- Rhoddir anogaeth i'r ymgeisydd gynnwys datganiad cyd-destun byr o ddim mwy na 300 gair (na fydd yn cael ei gynnwys yn y cyfrif geiriau).
- Mae eich cais am Gymrodoriaeth yn cynnwys disgrifiad myfyriol 1,400 gair wedi ei rannu ar draws y ddau Faes Gweithgaredd (700 gair yr un) a chyfeiriadau (uchafswm o 1,900 gair ac eithrio datganiad cyd-destun).
- UN geirda i gefnogi eich cais

Cyfarwyddyd Cymorth

Mae'r Ddogfen Gyfarwyddyd Ymgeisydd Cymrawd Cyswllt yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'ch cynorthwyo wrth baratoi eich cais am Gymrodoriaeth Gyswllt.

Cymrodoriaeth

Dyfernir Cymrodoriaeth i weithwyr proffesiynol all ddangos eu bod yn bodloni meini prawf Disgrifydd 2 (D2) [Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig \(UKPSF\)](#) ar gyfer addysgu a dysgu mewn addysg uwch. Trwy ymgeisio i fod yn Gymrawd yr Academi Addysg Uwch mae unigolion yn gallu ymgysylltu â dealltwriaeth eang o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu fel cyfraniad allweddol at ddysgu myfyrwyr o safon uchel a dangos:

- ymwneud llwyddiannus ar draws y pum Maes Gweithgaredd;
- gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ar draws pob agwedd o'r Wybodaeth Greiddiol;
- ymrwymiad i'r holl Werthoedd Proffesiynol;
- ymwneud llwyddiannus ag ymarfer addysgu priodol yn gysylltiedig â'r Meysydd Gweithgaredd;
- ymgorffori llwyddiannus ar ymchwil pynciol ac ysgolheigaidd a/neu ysgolheictod yn y gweithgareddau uchod, fel rhan o ddull integredig o ymgymryd ag ymarfer proffesiynol;
- ymwneud llwyddiannus â datblygu proffesiynol parhaus yng nghyswllt addysgu, dysgu, asesu a phan fydd yn briodol, ymarfer proffesiynol cysylltiedig.

Gofynion Ymgeisio

- Bydd eich cais am Gymrodoriaeth ar ffurf Adroddiad o Ymarfer Proffesiynol yn cynnwys:
 - YR HOLL Feysydd Gweithgaredd;
 - YR HOLL elfennau Gwybodaeth Greiddiol;
 - YR HOLL Werthoedd Proffesiynol.
- Rhoddir anogaeth i'r ymgeisydd gynnwys datganiad cyd-destun byr o ddim mwy na 300 gair (na fydd yn cael ei gynnwys yn y cyfrif geiriau).
- Mae eich cais am Gymrodoriaeth yn cynnwys disgrifiad myfyriol 3,000 gair wedi ei rannu ar draws y pum Maes Gweithgaredd (600 gair yr un) a chyfeiriadau (uchafswm o 3,500 gair ac eithrio datganiad cyd-destun).
- DAU Ddatganiad Cefnogi gan Ganolwyr.

Cyfarwyddyd Cymorth

Mae'r Ddogfen Gyfarwyddyd Ymgeisydd Cymrawd yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'ch cynorthwyo wrth baratoi eich cais am Gymrodoriaeth.

Uwch Gymrodoriaeth

Dyfernir Uwch Gymrodoriaeth i weithwyr proffesiynol all ddangos eu bod yn bodloni meini prawf Disgrifydd 3 (D3) **Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF)** ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu mewn addysg uwch.

Trwy ymgeisio i fod yn Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch byddwch yn dangos dealltwriaeth drwyadl o ddulliau effeithiol o addysgu a chynorthwyo dysgu fel cyfraniad allweddol at ddysgu myfyrwyr o safon uchel. Dylech fedru darparu tystiolaeth o:

- Ymwneud llwyddiannus ar draws y pum Maes Gweithgaredd;
- Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ar draws pob agwedd o'r Wybodaeth Greiddiol;
- Ymrwymiad i'r holl Werthoedd Proffesiynol;
- Ymwneud llwyddiannus ag ymarfer addysgu priodol yn gysylltiedig â'r Meysydd Gweithgaredd;
- Ymgorffori llwyddiannus ar ymchwil pynciol ac ysgolheigaidd a/neu ysgolheictod yn y gweithgareddau uchod, fel rhan o ddull integredig o ymgymryd ag ymarfer proffesiynol;
- Ymwneud llwyddiannus â datblygu proffesiynol parhaus yng nghyswllt addysgu, dysgu, asesu, ysgolheictod a phan fydd yn briodol, ymarfer academiaidd neu broffesiynol cysylltiedig.
- Cydlynu, cynorthwyo, goruchwyllo, rheoli a/neu fentora llwyddiannus ar eraill (boed yn unigolion a/neu dimau) yng nghyswllt addysgu a dysgu.

Gofynion Ymgeisio

- Bydd eich cais am Uwch Gymrodoriaeth ar ffurf Adroddiad o Ymarfer Proffesiynol yn cynnwys:
 - Datganiad Cyd-destun (uchafswm o 300 gair nad yw'n cael ei gynnwys yn y cyfrif geiriau cyffredinol);
 - Adroddiad Ymarfer Myfyriol;
 - a dwy Astudiaeth Achos.
 - 6,000 yw'r cyfyngiad geiriau a rennir ar draws y tair elfen, gyda 500 gair ychwanegol ar gyfer cyfeiriadau (uchafswm cyffredinol o 6,500 heb gynnwys y datganiad cyd-destun), ynghyd â'r datganiadau cefnogi gan ddau ganolwr.
 - Ein cyngor yw torri eich cyflwyniad i lawr i 2000 o eiriau ar gyfer yr Adroddiad Ymarfer Ystyriol, a 2000 o eiriau ar gyfer pob astudiaeth achos.
- DAU Ddatganiad Cefnogi gan Ganolwyr.

Cyfarwyddyd Cymorth

Mae'r Ddogfen Gyfarwyddyd Ymgeisydd Uwch Gymrawd yn rhoi cyfarwyddiadau manwl i'ch cynorthwyo wrth baratoi eich cais am Uwch Gymrodoriaeth.

Prif Gymrodoriaeth

Dyfernir Prif Gymrodoriaeth i weithwyr proffesiynol all ddangos eu bod yn bodloni meini prawf Disgrifydd 4 [Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig \(UKPSF\)](#) ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu mewn addysg uwch.

Trwy ymgeisio i fod yn Brif Gymrawd yr Academi Addysg Uwch byddwch yn cyflwyno hanes parhaus o arweinyddiaeth strategol effeithiol mewn ymarfer academaidd a datblygiad academaidd fel cyfraniad allweddol at ddysgu myfyrwyr o safon uchel. Dylech fedru darparu tystiolaeth o:

- Ymrwymiad gweithredol i holl Ddimensiynau'r Fframwaith ac yn eu hyrwyddo, trwy waith gyda myfyrwyr a staff, ac mewn datblygiadau sefydliadol;
- Arweinyddiaeth strategol lwyddiannus i gryfhau dysgu'r myfyrwyr, gyda phwyslais neilltuol, heb eithrio elfennau eraill o angenrheidrwydd, ar wella ansawdd addysgu mewn lleoliadau sefydliadol, a/neu genedlaethol/ryngwladol;
- Sefydlu polisiau sefydliadol effeithiol a/neu strategaethau eraill i gynorthwyo a hyrwyddo addysgu a chynorthwyo dysgu o safon gan eraill (e.e. trwy fentora, annog);
- Eiriol dros ddull integredig o ran ymarfer academaidd mewn lleoliadau sefydliadol a/neu leoliadau ehangach (gan ymgorffori, er enghraifft, addysgu, dysgu, ymchwil, ysgolheictod, gweinyddu ac ati);
- Ymrwymiad parhaus a llwyddiannus i, ac ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus yn ymwneud ag ymarferion academaidd, sefydliadol a/neu broffesiynol eraill.

Gofynion Ymgeisio

- Rhaid i bob ymgeisydd am Brif Gymrodoriaethau ymgeisio'n uniongyrchol i AU Ymlaen.
- Rhaid i ymgeiswyr gael eu cefnogi yn gyntaf gan eu rheolwyr llinell yn y Swyddfa Academaidd.

Cyfarwyddyd Cymorth

Mae AU Ymlaen yn rhoi cyfarwyddyd eang ar geisiadau Prif Gymrodoriaeth: [Prif Gymrodoriaeth | AU Ymlaen \(advance-he.ac.uk\)](#)

Proses Ymgeisio

Mae'r broses asesu ar gyfer ceisiadau am Gydabyddiaeth gan AU Ymlaen yn debyg iawn i'r broses sicrhau ansawdd y mae'r Brifysgol yn ei mabwysiadu ar gyfer dyfarniadau a addysgir.

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu trwy adolygu'r dystiolaeth a gyflwynir sy'n berthnasol i ofynion pob disgrifydd i gyrraedd dyfarniad terfynol.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi defnyddio'r ffurflen gais gywir a'r geirdaon i gefnogi ar gyfer y categori o gymrodoriaeth a geisiwch.

Ar ôl cwblhau eich cais a'ch bod chi a'ch mentor yn hapus, bydd yn dilyn y broses a amlinellir isod:

1. Dylai'r cais gael ei gyflwyno yn electronig, erbyn y dyddiad a roddwyd, trwy'r ddolen TIN briodol ar Moodle.
2. Bydd Gweinyddwr y Swyddfa Academaidd yn gwirio eich bod wedi cadw at y terfyn geiriau a bod geirdaon addas ar gyfer eich cais wedi eu cynnwys.
3. Fe ddylech chi gyflwyno datganiadau cefnogi eich canolwyr ar yr un pryd â'ch cais. Os nad yw hyn yn bosibl, dylent gael eu cyflwyno cyn pen dau ddiwrnod o ddyddiad cau cyflwyno'r ffurflen. Os **na** dderbynnir y geirdaon cyn pen dau ddiwrnod o'r dyddiad cau cyflwyno, bydd y cais yn cael ei ddal yn ôl hyd y cyfnod ystyried nesaf.
 - 3.1 Os amheuir ymgeisydd o gamymddygiad academaidd bydd y Swyddfa Academaidd yn penodi Swyddog Achos i ymchwilio i hynny. Ni fydd y cais yn cael ei brosesu na'i ystyried gan Banel Cydnabyddiaeth yr Academi Addysg Uwch nes bydd yr ymchwiliad neu unrhyw brosesau eraill cysylltiedig wedi cael eu cwblhau.
 - 3.2 Os amheuir bod geirda yn llên-ladrad, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu geirda arall.
4. Y Swyddfa Academaidd sy'n dewis yr aseswyr priodol (gan gynnwys yr Asesydd Arweiniol) i adolygu'r ceisiadau. Er mwyn gwarchod tryloywder a sicrhau ansawdd, mae aseswyr yn adolygu ceisiadau o Sefydliadau heblaw eu hun eu hunain.

Asesu'r Ceisiadau

Yn unol â Pholisi Achredu AU Ymlaen (4.4.2), mae'r holl geisiadau'n cael eu hadolygu gan ddau asesydd, a rhaid i'r ddau fod â Chymrodoriaeth ar lefel gyfatebol neu uwch na'r cais sy'n cael ei adolygu. Mae holl aseswyr PCDDS yn Gymrodyr o leiaf ac wedi cael eu hyfforddi ac wedi mynychu ymarfer cymedroli blynyddol. Y ddau asesydd sy'n ffurfio Panel Cydnabyddiaeth yr Academi Addysg Uwch.

Rhennir y ceisiadau ag aseswyr trwy ddull electronig diogel (e.e. OneDrive/Sharepoint) a gofynnir i'r aseswyr wirio'r rhestr o geisiadau a ddyrannwyd iddynt i sicrhau nad ydynt wedi cynorthwyo, mentora nac arwain unrhyw un o'r ymgeiswyr yng nghyfnod datblygu'r cais ac nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau. Pan ddynodir bod perthynas flaenorol, dyrennir y cais i asesydd gwahanol. Ni ddyrennir mwy na 6 o geisiadau i aseswyr yn ystod unrhyw gyfnod ystyried.

Mae adolygwyr mewnol yn cymryd rhan mewn gweithgaredd diweddarau a chysoni/safoni blynyddol.

Mae gan aseswyr 2 wythnos i adolygu'r ceisiadau a chyflwyno copïau electronig o'r ffurflenni adolygu i'r Swyddog Gweinyddol (**E2.17-19**). Rhaid i aseswyr gyrraedd barn gytûn ac ysgrifennu adborth i'r ymgeisydd gan ddefnyddio'r Templed Deilliant ac Adborth Panel (**E2.20-22**). Os na fydd yn bosibl llunio penderfyniad o hyd, gofynnir i'r Cynghorydd Allanol adolygu'r cais. Yn yr achosion hyn, mae argymhelliad y Cynghorydd Allanol yn derfynol.

Mae'r Cynghorydd Allanol yn cymedroli trwy sampl, er bod y system yn rhoi mynediad electronig i'r holl geisiadau a phenderfyniadau, os bydd angen. Bydd y sampl yn cynnwys o leiaf 6 neu 25% o geisiadau (pa bynnag un sydd fwyaf) gydag o leiaf un ym mhob un o'r tri chategori (D1, D2, D3) ac yn cynnwys ceisiadau llwyddiannus a'r rhai a gyfeiriwyd.

Ar ôl i'r cynghorydd allanol gadarnhau'r sampl, bydd y Swyddfa Academaidd yn cadarnhau'r canlyniad i bob ymgeisydd. Bydd y Swyddfa Academaidd yn cadarnhau os yw'r cais wedi bodloni neu heb fodloni safon y Gymrodoriaeth.

Os na fydd wedi bodloni'r meini prawf, yna gofynnir am gael cyfeirio. Ym mhob achos rhoddir adborth i arwain datblygiad yn y dyfodol ac unrhyw geisiadau dilynol. Dim ond ar un achlysur y gall ceisiadau gael eu cyfeirio cyn bod angen cais newydd.

Cyfeirio

- Rhaid i gais diwygiedig gael ei gyflwyno i'r Swyddfa Academaidd cyn pen 4 wythnos o ddychwelyd y cais a'i ystyried gan yr aseswyr gwreiddiol, sy'n pennu canlyniad yn unol â'r broes ar gyfer ystyried ceisiadau newydd.


Bydd yr ymgeisydd yn cael manylion mentor sydd wedi cytuno i gynorthwyo'r ymgeisydd wrth ail-lunio'r cais a dyddiad y Panel Cydnabyddiaeth Academi Addysg Uwch nesaf. Gall y mentor fod y mentor gwreiddiol neu'n fentor gwahanol, fel bydd yn briodol.

Cofnodir pob trafodaeth a barn gan y Swyddog Gweinyddol ar gyfer dibenion archwilio.

Mae'r Bwrdd Dysgu ac Addysgu'n derbyn data am ddeilliannau, yn derbyn yr adroddiad ffurfiol gan y cynghorydd allanol ac yn ymateb iddo, yn rheoli sicrhau ansawdd a gwella'r ddarpariaeth achrededig, yn dynodi arfer da, yn cynllunio DPP yn y dyfodol i'r adolygwyr/mentoriaid, ac yn monitro ymgysylltu.

Cyn unrhyw gyfathrebu ag ymgeiswyr o ran y dyfarniadau, mae'r Cynghorydd Allanol yn cymedroli sampl o waith.

Ystyrir adroddiad goruchwyllo blynyddol, ynghyd ag adroddiad y Cynghorydd Allanol ac ymateb y Brifysgol gan y Bwrdd Dysgu ac Addysgu.



Cyfyngiadau geiriau ar gyfer ailgyflwyno (cyfeirio)

Cynhwysir y cyfyngiadau geiriau ar gyfer ailgyflwyno yn y templed ailgyflwyno y mae ymgeiswyr yn ei gael. Disgwylir i ymgeiswyr ail-ddrafftio rhannau o'u cais i roi lle ar gyfer y dystiolaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn eu cais diwygiedig ond dyrennir geiriau ychwanegol iddynt i'w cynorthwyo wrth adolygu (gweler isod). Er bod cyfyngiad geiriau wedi ei osod, nid cyfrifoldeb yr aseswyr yw plismona hyn. Os bydd asesydd yn teimlo bod ymgeisydd wedi mynd trwy'r cyfyngiad a ddyrannwyd yn sylweddol, byddant yn cysylltu â'r Swyddfa Academaidd (HEAapplications@uwtsd.ac.uk).

Nodir y cyfyngiadau geiriau ar gyfer ceisiadau diwygiedig ym mhob categori isod.

Categori	Cyfyngiad geiriau ar gyfer cais diwygiedig
Cymrodoriaeth Gyswilt	Cyfyngiad geiriau 1,600 (200 o eiriau'n ychwanegol) ar gyfer y sylwadau myfyriol a chyfeiriadau (500 gair); uchafswm cyffredinol o 1,800 gair
Cymrodoriaeth	Cyfyngiad geiriau 3,300 (300 o eiriau'n ychwanegol) ar gyfer y sylwadau myfyriol a chyfeiriadau (500 gair); uchafswm cyffredinol o 3,800 gair
Uwch Gymrodoriaeth	Cyfyngiad geiriau 6,500 (500 o eiriau'n ychwanegol) ar gyfer Adroddiad Myfyriol ar Ymarfer ac Astudiaethau Achos a chyfeiriadau (500 gair); uchafswm cyffredinol o 7,000 gair

Gweithdrefn Apelio

Sail i Apelio

Mae gan unrhyw ymgeisydd i'r Panel Cydnabyddiaeth hawl i gyflwyno apêl ar y sail bod diffygion neu anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd yr asesiad neu adolygiad o'u cais pan fydd achos *prima facie* y gallai diffygion, anghysondebau neu gyngor fod wedi cael effaith niweidiol ar y canlyniad.

Ni fydd apeliadau sy'n amau barn academaidd yr aseswyr yn cael eu derbyn.

Cyflwyno Apêl

Anfonir unrhyw apêl i'r Swyddfa Academaidd ar Ffurflen Apêl yr Uned (E.2.25 Ffurflen Apêl) fel arfer ddim hwyrach na 21 diwrnod ar ôl yr hysbysiad swyddogol neu ddyfarniad. Ni fydd rhybudd o apêl syml a roddir yn ysgrifenedig gan ymgeisydd o fewn yr amserlen uchod yn cael ei ystyried yn apêl ac ni fydd yn cael ei dderbyn.

Ystyrir bod apeliadau a dderbynnir ar ôl 21 diwrnod tu hwnt i'r terfyn amser ac ni fyddant yn cael eu hystyried oni bai bod yr apelydd wedi darparu tystiolaeth annibynnol i ddangos rhesymau cadarn pam na chyflwynwyd yr apêl yn yr amserlen briodol.

Ni fydd y Brifysgol yn ystyried apêl a gyflwynir fwy na 12 mis ar ôl cyfarfod perthnasol y Panel Cydnabyddiaeth.

Fel arfer bydd y Swyddfa Academaidd yn cydnabod derbyn apêl cyn pen 7 diwrnod. Ar ôl derbyn apêl, penodir Swyddog Achos.

Ymchwiliad

Bydd y Swyddog Achos yn cynnal gwerthusiad cychwynnol i wirio bod yr apêl:

- yn cael ei chyflwyno dan y weithdrefn gywir,
- yn disgyn o fewn y seiliau y gellir apelio arnynt,
- yn cael ei chyflwyno o fewn unrhyw ddyddiad cau,
- yn y ffurf ofynnol.

Yn dilyn y gwerthusiad cychwynnol, bydd y Swyddog Achos yn pennu a oes dadl glir dros apêl.

Os bydd dadl dros apêl, bydd y swyddog achos yn sicrhau bod y ffeithiau'n cael eu dilysu ac ar ôl cwblhau ei ymholiadau/ei hymholiadau, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Swyddfa Academaidd yn nodi amgylchiadau'r achos ac yn cadarnhau ei ganfyddiadau/ei chanfyddiadau.

Bydd gan y swyddog achos y grym i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:

- gwrthod yr apêl a chadarnhau dyfarniad gwreiddiol yr aseswyr;
- cadarnhau'r apêl a chyfeirio'r achos at Banel Cydnabyddiaeth arbennig i adolygu'r dyfarniad gwreiddiol.

Gweithdrefn Gwynion

Dylai cwynion am y mentor neu'r cynllun gael eu mynegi trwy Bolisi Cwynion y Brifysgol.

Dyma'r ddolen i'r Polisi Cwynion: [Polisi Cwynion](#)